OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 638

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010

## RHAN 6

## OFFERYN LLYWODRAETHU, STAFFIO, CYNGHORAU YSGOL A STATWS ELUSENNOL

**Y ddyletswydd i ystyried canllawiau**

**39.** Mewn perthynas â gwneud offerynnau llywodraethu, y materion yr ymdrinnir â hwy ynddynt, eu ffurf, ac adolygu ac amrywio'r cyfryw offerynnau, rhaid i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru.